# Penderfyniadau Ar y Cyd: Cynhwysiant a Phrofiad

Gweithio gyda'n gilydd dros Went Iachach i gael y gofal a'r cymorth iawn, yn y lle iawn ar yr adeg iawn

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent
Gwent Regional Partnership Board

## Cynnwys:


1. Mae dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn!
2. Beth yw Ymgysylltu, Cyfathrebu a Chydgynhyrchu?
3. Uchafbwyntiau'r Digwyddiad
4. Trosolwg o'r Digwyddiad.
5. Gweithdai a Themâu Allweddol
6. Adborth yn dilyn y Digwyddiad a Gwerthuso
7. Argymhellion a'r Camau Nesaf
8. Cymerwch Ran!




## Mae dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn!

Nod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent (BPRh) yw gwella iechyd a lles y bobl yn y rhanbarth a gwella'r ffordd y mae gwasanaethau iechyd a gofal yn cael eu darparu, drwy sicrhau bod pobl yn cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn, i weddu i'w hanghenion.

Credwn y dylai'r gwaith yr ydym yn ei wneud gael ei arwain gan bobl sy'n byw ac yn gweithio yng nghymunedau Gwent ac rydym am greu man lle gallwn gynnal sgyrsiau ystyrlon gyda phobl, fel y gallwn weithio gyda'n gilydd i wella gofal a chymorth.

Mae'n ddyletswydd ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yng Ngwent (AAB) sy'n nodi anghenion ein cymunedau o ran iechyd a gofal cymdeithasol, ac rydym yn datblygu ac yn monitro'r Cynllun Ardal sy'n alinio ac yn amlinellu'r camau y byddwn yn eu cymryd i wella cymorth iechyd a gofal cymdeithasol. Gellir dod o hyd i'r dogfennau hyn ar ein gwefan Home – Gwentrpb.

Rydym am glywed lleisiau a phrofiadau ein dinasyddion, fel y gallwn weithio gyda'n gilydd, i wella ansawdd y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a'r ffordd y maen nhw'n cael eu darparu ledled Gwent. Rydym wedi ymrwymo i ddeall anghenion ein cymunedau gwahanol, a chydweithio â phobl i adeiladu ar arferion presennol, yn ogystal â chwilio am gyfleoedd i arloesi a newid.

**Beth yw Ymgysylltu, Cyfathrebu a Chydgynhyrchu?**

**Ymgysylltu** dyma pan fydd rhanddeiliaid yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu gwasanaethau, ac yn eu rôl fel partneriaid. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys dinasyddion, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, y gweithlu, y sector gwirfoddol, cynrychiolwyr y gymuned a'r cyhoedd yn ehangach.

**Cyfathrebu,** mae'n broses ddwyffordd sy'n cynnwys gwrando, clywed yr hyn y mae pobl yn ei ddweud a defnyddio hynny i lywio a gwella'n barhaus.

**Cydgynhyrchu,** gweithio gyda'n gilydd. Drwy gyfuno ymdrechion, mae pawb yn cyfrannu at wneud pethau'n well i bawb arall. Mae cydgynhyrchu yn galluogi pobl sy'n darparu gwasanaethau a phobl sy'n eu derbyn, i rannu pŵer a chyfrifoldeb, a chydweithio mewn perthynas gyfartal, ymatebol a gofalgar.

**Mae ein hymrwymiad i gydgynhyrchu yn golygu:**

- **Cydnabod bod pobl yn asedau a'u bod yn gallu cyfrannu'n gadarnhaol at y dasg o gynllunio a gweithredu'r ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol.**

- **Cefnogi a grymuso pobl i gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio, darparu a gwerthuso'r ddarpariaeth.**
- **Grymuso pobl i gymryd cyfrifoldeb dros eu lles eu hunain a chyfrannu ato.**
- **Sicrhau bod ymarferwyr yn gweithio mewn partneriaeth â phobl i gyflawni canlyniadau personol, ar lefel unigol ac ar lefel gwasanaeth.**

## Uchafbwyntiau'r Digwyddiad

Ar 15 Mai, 2024 yng Nghasnewydd, fe wnaethom gynnal digwyddiad cyffrous i ysgogi'r meddwl, a chanolbwyntio ar storïau pobl a'r pethau bach a all gael effaith fawr ar fywydau pobl. Tynnodd y digwyddiad sylw at bwysigrwydd gwneud penderfyniadau gyda'n gilydd a phwysigrwydd cyd-gynhyrchu, wrth fynd ati i ddarparu gofal a chymorth.

Ymunodd dros ***180*** o bobl â ni yn y digwyddiad hwn, gydag ymrwymiad ar y cyd i gydweithio i wella iechyd, gofal cymdeithasol, a chymorth tai ar draws rhanbarth Gwent.

Gwahoddwyd partneriaid y gwahanol asiantaethau a dinasyddion, ochr yn ochr â siaradwyr gwadd, yn cynnwys pobl sydd wedi derbyn cymorth iechyd a gofal cymdeithasol yn bersonol, neu fel gofalwyr. Rhannwyd profiadau personol, gan nodi pryd y cafwyd cymorth da a defnyddiol, ond hefyd lle mae angen gwella cymorth a phrosesau, i helpu i lywio a siapio gwasanaethau yn y dyfodol a chreu effaith fwy cadarnhaol ar fywydau pobl.




Cafwyd amrywiaeth o gyflwyniadau, gweithdai a chyfleoedd rhwydweithio diddorol, yn cynnwys ***30*** o stondinau gwybodaeth gan bartneriaid ar draws y sectorau. Yn rhan o'r gweithdai, fe wnaethom hefyd drafod sut y gallwn fynd cam ymhellach i ddatblygu a chreu amgylchedd cynhwysol sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth a hyrwyddo cydweithio, i wella iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngwent.

Estynnwyd gwahoddiad i fyfyrwyr Prifysgol De Cymru i fynychu a chofnodi elfennau'r digwyddiad, fel cyfle profiad gwaith ac i greu cynnwys ar gyfer eu portffolios, a hynny ochr yn ochr â chwmni Tom Damsell Imagery.



**“Mae'n fwy adeiladol siarad am yr hyn yr ydym am ei greu, nid ei atal, rydym eisiau lles, bywydau ffyniannus, bywydau cyffredin sy’n ogoneddus. Ffocws ar bobl yn byw’n dda!” – Hyrwyddwr Rhwydwaith Dinasyddion Gwent**

## Trosolwg o'r Digwyddiad




Daeth dros ***180*** o bobl i **ddigwyddiad y BPRh**, ***Penderfyniadau Ar y Cyd: Cynhwysiant a Phrofiad.*** Ymysg y rhai a ddaeth i’r digwyddiad oedd aelodau’r gymuned, pobl sy’n

derbyn cymorth, a'u gofalwyr, a hynny ochr yn ochr ag Arweinwyr Awdurdodau Lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a'r Trydydd Sector. Roedd y digwyddiad yn gyfle i dynnu sylw at bwysigrwydd llais y dinesydd, a chyd-gynhyrchu i greu a darparu gwasanaethau. Roedd yn gyfle hefyd i ddangos enghreifftiau o'r gwaith ysbrydoledig sy'n mynd rhagddo ledled Gwent drwy gyd-gynhyrchu llwyddiannus a'r gwelliannau a wnaed i ganlyniadau'r rhai sy'n ymwneud â'u gofal a'u cymorth. Canolbwyntiodd y digwyddiad hefyd ar sut y gallwn wella ein harferion cyd-gynhyrchu, a'r hyn y mae dinasyddion yn teimlo sydd ei angen i ymgorffori'r dull hwn ymhellach ym mhopeth a wnawn, felly'n rhoi mewnwelediad rhagorol a chyfeiriad i ni ar gyfer ein camau nesaf.

Roedd yr agenda yn cynnwys cyfuniad o gyflwyniadau, siaradwyr gwadd, gweithdai, a phaneli holi ac ateb byw, o bob math o gefndiroedd, a gwasanaethau. Ymhlith y siaradwyr gwadd roedd:

- **Stori Agoriadol: Pam? Cyfleoedd a Heriau Gofal a Gydgynhyrchir:** Trevor Palmer - Aelod o Rwydwaith Dinasyddion Gwent
- **Cyd-gynhyrchu – Y Pen, y Galon a'r Dwylo:** Nick Andrews – Swyddog Datblygu Ymchwil ac Ymarfer, Datblygu Ymarfer a Gyfoethogir gan Dystiolaeth
- **Gwella Gofal Dementia yng Ngwent:** Sonya Foley, Arweinydd Rhaglen Safonau Dementia ac Arbenigwyr Dementia yn ôl Profiad
- **Gwasanaeth Mentora Cyfoedion:** Hannah Feehan – Mentor Cyfoedion Seicoleg Oedolion, Dr Jess Woolley – Arweinydd Datblygu Cyfoedion, Dr Shelley Mccann – Arweinydd Cyfoedion Seicoleg Oedolion a Jen Sadler – Arweinydd Tîm Datblygu Cyfoedion
- **Cyd-gynhyrchu Ar Waith: Grymuso Cymunedau:** Ceri Reed – Llais Rhieni yng Nghymru CIC a Dr Kavitha Pasunuru – Seiciatrydd Ymgynghorol Plant a Phobl Ifanc, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Rhanbarthol Teulu a Therapïau
- **Grant Cymorth Tai (GCT):** Shelley Jones – Arweinydd GCT, Cyngor Caerffili
- **Ein Dyfodol, Ein Llais: Babanod, Plant a Phobl Ifanc Gwent:** Yr Athro Tracy Daszkiewicz – Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd
- **Eiriolaeth Cydgynhyrchu yng Ngwent:** Chris Hooper – Swyddog Hwyluso ac Ymgysylltu a David Davies – Swyddog Monitro Contractau, Cyngor Blaenau Gwent
- **Gair i Gloi:** Lorraine Morgan – Hyrwyddwr Rhwydwaith Dinasyddion Gwent





**"Fel Hyrwyddwr Dinasyddion Rhwydwaith Dinasyddion Gwent, rwyf wedi mynychu'r rhan fwyaf o gyfarfodydd y BPRh, ac rwyf wedi gweld newid sylweddol yn y ffordd y mae gwasanaethau gofal a chymorth yn cael eu hailgynllunio." Lorraine Morgan**

## Gweithdai a Themâu Allweddol

Rhan bwysig o'r digwyddiad oedd cael cipolwg ar yr hyn yr oedd aelodau'r gymuned, partneriaid ac arweinwyr allweddol yn teimlo y gallem ei wneud i ymgorffori arferion cydgynhyrchu ymhellach, yng ngwaith y BPRh a'i bartneriaid. Aethom ati i holi cyfres syml o gwestiynau yn ystod gweithdy'r bore i roi man cychwyn i ni osod yr olygfa am weddill y dydd. Yng ngweithdy'r prynhawn, fe wnaethom ail drafod y themâu allweddol a godwyd yn ystod y bore, gan archwilio sut i adeiladu ar arfer da a chyflawni ein blaenoriaethau i wella iechyd a gofal cymdeithasol.

Gwahoddwyd y cyfranogwyr i ateb y cwestiynau canlynol fel rhan o'r gweithdy:

1. **Beth mae 'llais y dinesydd' yn ei olygu i chi a sut allwn ni sicrhau ei fod yn cael ei barchu a'i glywed gan eraill?**
2. **Sut allwn ni ddatblygu perthnasoedd gwell, mwy cadarnhaol rhwng ymarferwyr a'r bobl y maen nhw'n gweithio gyda nhw?**
3. **Beth yw'r heriau o ran cyd-gynhyrchu gofal a chymorth, beth mae 'da' yn ei olygu?**




Roedd y prif themâu o'r ymatebion yn cynnwys:

## Perthynas a Pharhad:

- Meithrin ffydd a hyder a chynnal perthnasoedd.
- Annog perchnogaeth a gwytnwch.
- Parchu gwerthoedd gwahanol a deall gwahaniaethau diwylliannol.
- Rhoi mwy o wybodaeth am wasanaethau cymorth.

## Hygyrchedd, Cynwysoldeb, Amrywiaeth a Hyder:

- Adlewyrchu'r gymuned amrywiol yr ydym yn byw ynddi drwy gyfranogiad ac ymgysylltu.
- Ymarfer gwrando a gweithredu gydag empathi.
- Defnyddio ystod o ddulliau cyfathrebu gwahanol, dileu rhwystrau, a defnyddio iaith glir.
- Adnabod effaith ymyrraeth gynnar.

## Grymuso a Gwerthfawrogi Lleisiau:

- Grymuso dinasyddion i gael llais a'u hystyried yn arbenigwyr.
- Cynnwys dinasyddion a sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, hyrwyddo cytbwysedd.
- Osgoi gwneud rhagdybiaethau, a bod yn chwilfrydig.
- Galluogi cyfathrebu uniongyrchol â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.
- Meithrin dulliau cydweithredol, anfeirniadol a gwybodus.

## Arweinyddiaeth a Newid Diwylliant:

- Newid terminoleg y sefydliad.
- Rhoi adborth ystyrlon.
- Sicrhau ymrwymiad o'r top i lawr.
- Symud i ffwrdd o fodelau symbolaidd ac integreiddio egwyddorion cydgynhyrchu i waith o ddydd i ddydd ac arfer safonol.
- Dileu’r haenau o fiwrocratiaeth ar gyfer y rhai sy'n gwneud penderfyniadau cyfrifol.
- Sicrhau bod llais dinasyddion yn cyfateb â buddsoddiad.
- Dathlu cyflawniadau, myfyrio ar gamgymeriadau, croesawu newid.

## Cydweithredu a Chyfathrebu:

- Blaenoriaethu a gwella cyfathrebu dwyffordd rheolaidd a hygyrchedd rhwng gwasanaethau, a'r cyhoedd.
- Peidio ag osgoi sgyrsiau anodd; holi cwestiynau.
- Canolbwyntio ar wella, nid profi, cadw meddwl agored a chanolbwyntio ar yr unigolyn.
- Defnyddio iaith ystyriol ac osgoi jargon.
- Annog gweithwyr proffesiynol i gydweithio a rhannu syniadau, meithrin gwaith tîm.
- Ymgysylltu â phobl ifanc.
- Mynd i'r afael ag allgau digidol wrth symud gwasanaethau ar-lein.

## Hyblygrwydd a Chyllid:

- Cydnabod nad oes un dull o weithredu sy’n gweddu i bawb; mae angen hyblygrwydd.
- Mynd i'r afael â heriau amser ac ariannu, yn enwedig ar gyfer sefydliadau llai.
- Sicrhau mai’r bobl gywir sydd ynghlwm.
- Gyrru cyfeiriad gwasanaethau yn seiliedig ar fewnbwn gan ddinasyddion.

Yn ystod yr ail weithdy gwnaethom holi’r cwestiynau canlynol:

1. **Sut allwn ni barhau i adeiladu ar arferion da?**
2. **Beth sydd angen i ni ei wneud i gyflawni'r blaenoriaethau hyn?**
3. **Pa gamau allweddol ydyn ni’n eu dysgu yn sgil y gynhadledd hon heddiw?**



## Dysgu ac Ymrwymiad i Lwyddo:

- Monitro ac adolygu ein cynnydd yn rheolaidd.
- Parhau i gefnogi ac ymgysylltu â'r gymuned gydag ymagwedd gynhwysol, amrywiol.
- Trefnu digwyddiadau wyneb yn wyneb, sesiynau galw heibio a sioeau teithiol.
- Creu fforymau a grwpiau gwrando ar gyfer trigolion, adeiladu rhwydweithiau ehangach a hwyluso trafodaethau amlasiantaethol.
- Annog amgylchedd diogel i arbrofi, meithrin sgyrsiau agored a gonest. Cydnabod camgymeriadau a dysgu.
- Sicrhau bod cyd-gynhyrchu yn flaenoriaeth allweddol ar draws sefydliadau a neilltuo digon o amser ar gyfer cyfranogiad ystyrlon.

## Defnyddio ac Integreiddio Adnoddau i’r Eithaf:

- Cyfuno adnoddau cyllid.
- Cynnal mwy o arolygon.
- Cysylltu â gwasanaethau cymdeithasol ac adnoddau iechyd a'u hintegreiddio i greu canlyniadau gwell.
- Ceisio ymrwymiad gan arweinwyr allweddol.
- Dyrannu cyllid yn seiliedig ar fewnbwn dinasyddion, canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n bwysig i unigolion.
- Cynnwys cyd-gynhyrchu mewn hyfforddiant craidd.
- Defnyddio system sengl ar draws partneriaid.
- Creu hybiau cymunedol sy'n darparu ystod o wasanaethau.

## Arfer Da, Cyfathrebu a Chydweithio:

- Gwella cyfathrebu a thryloywder ar draws sefydliadau a gyda'r gymuned. Rhannu dysgu, hyrwyddo a hwyluso arfer gorau.
- Croesawu ffordd o feddwl cydgysylltiedig a chanlyniadau a rennir.
- Atebolrwydd drwy weithredu.
- Cymryd amser i gynllunio'n gywir.
- Hyrwyddo cefnogaeth cymheiriaid a manteision cyd-gynhyrchu ac annog pob grŵp a sefydliad i fabwysiadu strategaethau cyd-gynhyrchu.
- Canolbwyntio ar ddulliau sy'n cael eu gyrru gan ganlyniadau.
- Gwella dulliau cyfeirio a symleiddio prosesau, sicrhau'r cymorth a'r gefnogaeth gywir i unigolion.

## Grymuso, Cynrychiolaeth a Llais y Dinesydd:

- Cynyddu cyfranogiad arbenigwyr drwy brofiad a chynnwys dinasyddion ymhob partneriaeth strategol.
- Grymuso dinasyddion i gymryd perchnogaeth ac arwain.
- Talu arbenigwyr trwy brofiad am eu mewnwelediadau gwerthfawr a mynd i'r afael â phroblemau trafnidiaeth sy'n eu rhwystro rhag cymryd rhan.
- Addysgu a hysbysu'r cyhoedd drwy rannu manteision cydgynhyrchu a chefnogaeth cyfoedion.
- Canolbwyntio ar anghenion dinasyddion wrth gynllunio'n rhanbarthol a chynnwys dinasyddion a staff rheng flaen mewn penderfyniadau.
- Adeiladu ar wybodaeth leol o'r adnoddau sydd ar gael.
- Sicrhau bod cynrychiolwyr o blith dinasyddion yn adlewyrchu cymunedau amrywiol.

**"Credaf fod cyfraniadau a phrofiadau gofalwyr i'n rhanbarth yn rhan annatod o'r ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn meddwl am yr hyn sy'n bwysig i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngwent. Hyd yn hyn, rwyf wedi gweld newid sylweddol yn y ffordd y mae gweision cyhoeddus bellach yn derbyn yr hyn sydd gennym i'w ddweud ac yn mynd ati i wrando."**

## Adborth a Gwerthuso – Sut allwn ni wella ein digwyddiadau?

Yn y digwyddiad aethom ati i gasglu adborth ar ffurflen werthuso, gan y rhai oedd yn bresennol. Roeddem ni eisiau gwybod beth aeth yn dda, a sut y gallem wella digwyddiadau yn y dyfodol. Roedd hyn hefyd yn gyfle i ni ennyn diddordeb gan y rhai nad oeddent eisoes yn cymryd rhan yn ein Rhwydwaith Dinasyddion yng Ngwent a grwpiau dan arweiniad dinasyddion ar draws yr BPRh, i ymuno fel aelodau wrth symud ymlaen ac ehangu ein cyrhaeddiad cymunedol a chynnwys ein dinasyddion yn y cyd-gynhyrchu.

Mae adborth yn dilyn digwyddiadau yn hanfodol er mwyn gwella digwyddiadau yn y dyfodol a sicrhau bod y cyfranogwyr yn cael eu plesio. Wrth ddadansoddi'r adborth mae'n helpu i wella digwyddiadau yn y dyfodol a sicrhau bod y cyfranogwyr yn cael profiad gwell.



## Y negeseuon allweddol a ddysgwyd yn ystod y digwyddiad:

**Cydgynhyrchu**: Cynnwys a grymuso dinasyddion wrth lunio gwasanaethau yn arwain at ganlyniadau gwell.

**Gwell Cyfathrebu a Chyfeirio**: Mae angen i sefydliadau gyfathrebu'n well, yn fewnol ac yn allanol. Mae angen i aelodau'r gymuned fod yn fwy ymwybodol o wasanaethau yn eu hardal.

**Ymgysylltu Ystyrlon**: Blaenoriaethu ymgysylltiad ystyrlon gydag ystod eang o aelodau'r gymuned.

**Cydweithrediad a Chefnogaeth**: Annog cydweithio a thynnu sylw at y gwaith da sy'n mynd rhagddo.

**Mynd i'r afael â heriau a chanolbwyntio ar yr unigolyn:** Dysgu o lwyddiannau a heriau. Grym gofal unigol a rhyngweithiadau personol.


**Effeithlonrwydd Cyllidebol**: Canolbwyntio ar atal a gwariant effeithiol. Mae cyd-gynhyrchu yn gwneud y mwyaf o adnoddau.

**Effaith hirdymor**: Myfyrio ar yr heriau sy'n parhau.

## Sut Allwn Ni Wella Digwyddiadau yn y Dyfodol

1. **Amser a Hyd y Digwyddiad:** Awgrymwyd amser cychwyn diweddarach i osgoi traffig, cynnal digwyddiad byrrach, ac egwyliau mwy aml.
2. **Ymgysylltu â Chyfranogwyr:** Dywedodd y rhai a ddaeth i'r digwyddiad y byddent wedi hoffi cael mwy o gyfleoedd i holi cwestiynau a chynnig sylwadau ar ôl y cyflwyniadau, roeddent am sesiynau mwy rhyngweithiol a mwy o weithgareddau sy'n ymgysylltu â chyfranogwyr fel waliau graffiti neu flychau awgrymiadau.
3. **Cyfathrebu:** Defnyddiwyd rhywfaint o acronymau a geiriau jargon a'r teimlad oedd y dylid eu hosgoi. Awgrymwyd hefyd defnyddio cyfieithwyr.
4. **Rhwydweithio:** Gofynnodd y cyfranogwyr a oedd modd rhannu gwybodaeth am y rheini oedd yn bresennol er mwyn rhwydweithio yn y dyfodol a gofyn am fwy o amser i edrych ar ein marchnad.
5. **Cynrychiolaeth:** Roedd galw am bresenoldeb mwy amrywiol.
6. **Adborth a Dilyniant:** Roedd y cyfranogwyr am gael gwybod am y camau a gymerwyd yn dilyn y digwyddiad a'r diweddariadau a ddymunir ar gynnydd. Fe wnaethant awgrymu dull 'fe ddwedoch, fe wnaethom'.
7. **Hygyrchedd:** Gwnaed awgrymiadau am wybodaeth hawdd ei deall, sy'n ystyried pobl ag anghenion gwahanol fel Awtistiaeth.
8. **Cynnwys:** Gwerthfawrogwyd y dasg o rannu profiadau bywyd go iawn. Y teimlad yn gyffredinol oedd bod y digwyddiad yn addysgiadol ac wedi ei drefnu'n dda.

**"Diolch am ddiwrnod defnyddiol tu hwnt a chyfle i ysgogi'r meddwl." – Cyfranogwr**




**Roedd 80% o'r ymatebwyr yn fodlon iawn neu'n fodlon â'r digwyddiad.**

**Byddai 95% o'r ymatebwyr yn argymell y digwyddiad i berson arall.**

## Argymhellion a'r Camau Nesaf

Daw'r argymhellion canlynol yn dilyn y gweithdai a'r adborth yn y gynhadledd, a thynnir sylw atynt yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r partneriaethau strategol. Bydd hyn yn llywio'r gwaith y byddwn yn ei wneud wrth symud ymlaen a bydd hefyd yn ein helpu i gynllunio ar gyfer gweithgareddau a digwyddiadau yn y dyfodol yng Ngwent.

1. **Hyrwyddo arfer da o ran cyd-gynhyrchu, rhannu gwybodaeth a dysgu.**
2. **Blaenoriaethu rhyngweithio ac ymgysylltu effeithiol â'r cyhoedd.**
3. **Sicrhau bod cynrychiolwyr y dinasyddion yn adlewyrchu cymunedau amrywiol.**
4. **Mynd i'r afael â rhwystrau trafnidiaeth o ran cymryd rhan a threfnu taliad am gymryd rhan.**
5. **Parhau i adeiladu ar arfer da a dysgu o'r llwyddiannau a'r heriau.**
6. **Gwella, symleiddio, a chyfathrebu'n dda a rheolaidd gan sicrhau tryloywder ar draws sefydliadau a gyda'r gymuned.**
7. **Pwysleisio ymdrechion ar y cyd a chydweithio.**
8. **Grymuso dinasyddion i gymryd perchnogaeth ac arwain.**
9. **Darparu cyfleoedd dysgu a hyfforddiant parhaus.**
10. **Monitro ac adolygu ein cynnydd yn rheolaidd.**



**Rydym yn gwerthfawrogi cymorth ac arbenigedd pawb a gymerodd ran yn y digwyddiad, a hoffem ddweud diolch yn fawr iawn ar ran y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol am eich cyfraniad gwerthfawr.**

## Cymerwch Ran!

**Rhwydwaith Dinasyddion Gwent**

Mae'r Rhwydwaith Dinasyddion yn grŵp o bobl sy'n byw yng Ngwent y gofynnir iddynt roi eu barn, ac yr ymgynghorir â nhw am y cymorth a ddarperir yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Dyma gyfle cyffrous i helpu i lunio gwasanaethau lleol a dweud eich dweud am benderfyniadau a materion pwysig yn y gymuned leol. Mae'r ymrwymiad yn isel. Yn syml, byddwch yn cael eich gwahodd i gymryd rhan mewn cyfarfodydd rhithiol ac wyneb yn wyneb ac ymgysylltu ar lein drwy arolygon neu gynnig adborth ar adroddiadau ac asesiadau. Gallwch ddewis pa weithgareddau yr hoffech gymryd rhan ynddynt. Mae aelodau'r Rhwydwaith Dinasyddion hefyd yn derbyn cylchlythyrau yn rheolaidd er mwyn iddynt gael y wybodaeth ddiweddaraf.

**Gwneud Gwahaniaeth**

Mae deall barn trigolion yn golygu ein bod yn gallu targedu adnoddau yn well a datblygu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion pobl leol. Pwrpas y rhwydwaith yw darganfod beth yw barn trigolion am faterion a gwasanaethau lleol, a'u cefnogi i gymryd rhan yng ngwaith BPRh Gwent. Mae hyn yn ein helpu i wneud y pethau iawn ac mae'n bwydo'n uniongyrchol i bolisïau a phrosesau gwneud penderfyniadau. Mae adborth gan y Rhwydwaith yn cael eu cyfleu i arweinwyr allweddol a phartneriaid y BPRh yn cynnwys cynghorwyr yr Awdurdodau Lleol, i'w helpu i wneud penderfyniadau mwy gwybodus i wella bywydau pobl yn y rhanbarth.

**Ffyrdd Eraill o Rannu Eich Barn**

Un dull yn unig i ddeall barn trigolion ledled Gwent yw'r Rhwydwaith Dinasyddion. Byddwn yn parhau i ddefnyddio amrywiaeth o ffyrdd i wrando ar farn pobl, yn cynnwys ymgynghori ar lein, arolygon ar bapur, a thrwy alluogi'r cyhoedd i gymryd rhan mewn cyfarfodydd, digwyddiadau a chyfleoedd ymgysylltu.

**Hoffech chi Ymuno â Ni?**

I ddod yn aelod o'r rhwydwaith, rhaid eich bod yn byw yng Ngwent a rhaid i chi fod yn 16 oed neu hŷn. Os hoffech chi ymuno, cysylltwch â ni ar CitizensPanel@torfaen.gov.uk